WG23070
ISBN: 978-1-4734-9289-9

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion ac ymateb y Llywodraeth

# Pwyllgorau cynllunio, dirprwyo a chyd-fyrddau cynllunio

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** .......... 1

**2. Y camau nesaf** .......... 1

**3. Ymatebion** .......... 2

**4 Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio** .......... 3

**5 Rôl y Pwyllgor Cynllunio** .......... 8

**6 Cynllun Dirprwyo** .......... 9

**7 Cyd-fyrddau Cynllunio** .......... 18

**8 Asesiad Effaith Rheoleiddiol** .......... 20

**9 Crynodeb o'r sylwadau eraill** .......... 21

Atodiad A – Rhestr lawn o'r ymatebwyr, fesul categori .......... 25

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ynglŷn â phwyllgorau cynllunio, dirprwyo a chyd-fyrddau cynllunio ar 06 Hydref ac roedd modd cyflwyno ymatebion yn ei gylch tan 16 Ionawr 2015. Roedd cyfanswm o 18 o gwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol er mwyn hwyluso'r broses o ymateb.

1.2 Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion. Bydd copïau o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael os gofynnwch amdano.

## 2. Y camau nesaf

2.1 Bydd Adran 39 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cael ei chychwyn a bydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gynnar yn 2017 i gyflwyno rheoliadau sy'n pennu maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio, fel a ganlyn:


- bydd isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau (ond dim mwy na 50% o aelodau'r awdurdod – ac eithrio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol);
- Os oes gan wardiau fwy nag un aelod etholedig, dim ond un ohonynt fydd yn eistedd ar y pwyllgor cynllunio, a hynny er mwyn caniatáu i aelodau eraill y wardiau ysgwyddo'r rôl o gynrychioli buddiannau'r gymuned leol (ac eithrio Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Lleol nad ydynt ond yn cynnwys wardiau sydd â mwy nag un aelod)
- gwahardd defnyddio aelodau dirprwyol
- cyflwyno cworwm ar gyfer gwneud penderfyniadau, sef 50% o'r pwyllgor (gan dalgrynnu i fyny os oes odrif).

2.2 Bydd y rheoliadau'n dod i rym ym mis Mai 2017 yn dilyn yr etholiad Llywodraeth Leol.

2.3 Bydd cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cael ei ystyried ymhellach.


## 3. Ymatebion

3.1 Cafwyd cyfanswm o 64 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Darperir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A. Dyma ddadansoddiad o'r ymatebwyr:



## 4 Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio

| C1. | Ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu maint y pwyllgor cynllunio i isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau? |
|---|---|




4.1 O’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn, roedd y mwyafrif (86% o’r rhai a atebodd) yn cytuno y dylid cyfyngu maint pwyllgorau cynllunio i isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau.

4.2 Cafodd y manteision y cyfeiriwyd atynt yn y papur ymgynghori o ran pwyllgorau llai eu cydnabod a’u derbyn yn eang. Nododd llawer o’r ymatebwyr fod pwyllgorau llai yn gwneud i’r trafodaethau ganolbwyntio mwy, eu bod yn gwella atebolrwydd a chysondeb y broses o wneud penderfyniadau, a’i bod yn haws i’r cadeirydd eu rheoli.

4.3 Sylw cyson a wnaed oedd bod angen i’r aelodau ymgymryd â hyfforddiant gorfodol yn rheolaidd er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch materion cynllunio, fel y ceir trafodaethau o sylwedd a phenderfyniadau cadarn.


**Ymateb**

4.4 Cydnabu’r papur ymgynghori fod angen pennu ystod y gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis maint y tu mewn iddi sy’n briodol i’w hamgylchiadau hwy, er mwyn adlewyrchu’r gwahaniaethau rhwng meintiau awdurdodau yn well, a chreu cyfle i’r dull o ddosbarthu lleoedd ar y pwyllgor adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol yr awdurdod.

4.5 Cafodd y problemau gyda phwyllgorau mawr a’r manteision o ran pwyllgorau llai y cyfeiriwyd atynt yn y papur ymgynghori eu cydnabod a’u derbyn ar y cyfan gan fwyafrif yr ymatebwyr.

4.6 Yn sgil cyhoeddi’r papur ymgynghori, mae 3 awdurdod cynllunio lleol wedi ailstrwythuro’u pwyllgorau cynllunio er mwyn iddynt gyd-fynd â’r ystod arfaethedig. Dim ond dau awdurdod cynllunio lleol sy’n dal i fod â phwyllgorau cynllunio sydd â mwy nag 21 o aelodau.

| C2. | Os oes gan wardiau fwy nag un aelod etholedig, ydych chi'n cytuno mai dim ond un ohonynt ddylai eistedd ar y pwyllgor cynllunio? |
|---|---|




4.7 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, cytunodd y mwyafrif (sef 64% o'r rhai a atebodd), os oes gan wardiau fwy nag un aelod etholedig, mai dim ond un ohonynt ddylai eistedd ar y pwyllgor cynllunio.

4.8 Nododd yr ymatebwyr fod cael un aelod etholedig fesul ward yn sicrhau y cynhelir pwysoliad teg rhwng safbwyntiau pob ardal, gan leihau'r posibilrwydd i bleidleisiau un ward fod yn drech na rhai un arall oherwydd nifer y cynrychiolwyr.

4.9 Dywedodd y rhai a oedd yn anghytuno y gall y dull hwn atal yr awdurdod cynllunio lleol rhag dewis yr aelodau gorau i wasanaethu ar y pwyllgor cynllunio ac y gall arwain at golli gwybodaeth a phrofiad gwerthfawr. Gwnaethant ddweud hefyd y gall gyflwyno mwy o wleidyddiaeth i'r broses gynllunio pan fo gan aelodau wardiau gefndiroedd gwleidyddol gwahanol.

**Ymateb**


4.10 Mae cefnogaeth i’r syniad o gyfyngu aelodaeth y pwyllgor cynllunio i un aelod fesul ward.

4.11 Mae’r aelodau sy’n cymryd rhan ym mhroses y pwyllgor cynllunio mewn swydd cynrychiolydd lleol yn adlewyrchu’r broses ddemocrataidd yn y system gynllunio. Gall aelodau sy’n gweithredu yn swydd y cynrychiolydd lleol ymwneud â materion cynllunio lleol heb y cyfyngiadau penodol sydd i’w cael drwy fod yn aelod o bwyllgor cynllunio, gan gynnwys ymgymryd â rôl ymgyrchu ar faterion cynllunio sy’n effeithio ar eu hetholwyr. Mewn wardiau awdurdodau lleol lle y mae pob aelod lleol yn aelod o’r pwyllgor cynllunio, caiff y rôl hon ei lleihau gan greu niwed i’w hetholwyr ac, o ganlyniad, i gynhwysiant democrataidd.

4.12 Fodd bynnag, o dan y strwythurau llywodraeth leol presennol, mae tri Awdurdod Lleol nad ydynt ond yn cynnwys 16 neu lai o wardiau sydd â mwy nag un aelod. Gall cyfyngu ar aelodaeth y pwyllgor cynllunio fel y cynigir yn yr awdurdodau hyn arwain at anawsterau o ran creu pwyllgor cynllunio, yn arbennig wrth geisio cyflawni cydbwysedd gwleidyddol ar y pwyllgor. Bydd yn ofynnol eithrio’r awdurdodau hyn. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru yn annog yr awdurdodau hyn i weithredu’r ddarpariaeth hon pan fo’n bosibl oherwydd y manteision cydnabyddedig y cyfeiriwyd atynt yn y papur ymgynghori.

4.13 Nid yw’r ddarpariaeth hon yn berthnasol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol oherwydd cyfansoddiad eu haelodaeth, hynny yw, caiff aelodau eu penodi gan yr awdurdodau unedol sydd â thir yn y Parc Cenedlaethol a chânt eu recriwtio gan Lywodraeth Cymru oherwydd eu harbenigedd penodol, ac nid ydynt yn cynrychioli wardiau unigol.

| C3. | **Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gyflwyno cworwm o 50% (wedi'i dalgrynnu os yw cyfanswm aelodau'r pwyllgor yn odrif) ar gyfer gwneud penderfyniadau?** |
|---|---|




4.14 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (72% o'r rhai a atebodd) yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno cworwm o 50% er mwyn i bwyllgorau cynllunio wneud penderfyniadau.

4.15 Cydnabuwyd y bydd dilysrwydd y broses ddemocrataidd yn cael ei amau os bydd modd i lai na hanner y pwyllgor benderfynu ar gynigion, gan olygu o bosibl y byddai'n fwy tebygol y byddai awdurdod cynllunio lleol yn wynebu trafodion cyfreithiol a/neu feirniadaeth gyhoeddus.


4.16 Cafwyd sylwadau cyffredinol ynglŷn â'r angen am ganllawiau ar y dulliau a fyddai'n cael eu gweithredu pe na bai nifer ofynnol yr aelodau'n cael ei chyflawni, a'r goblygiadau o ran penderfynu ar y cais sydd gerbron pwyllgor.

**Ymateb**

4.17 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau, os cyfyngir ar faint cyffredinol y pwyllgor, fod cworwm ar gyfer gwneud penderfyniadau. Nod hynny yw sicrhau, pan fo'r pwyllgor yn fach, fod nifer ddigonol o aelodau'n bresennol i drafod y materion cynllunio ac i wneud penderfyniadau cyson ar geisiadau cynllunio.

4.18 Roedd yn amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fod llawer o awdurdodau cynllunio lleol yn gweithredu cworwm o 50% ar hyn o bryd.

| C4. | Ydych chi'n cytuno y dylid gwahardd defnyddio aelodau dirprwyol ar y pwyllgor cynllunio? |
|---|---|




4.19 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (66% o'r rhai a atebodd) yn cytuno y dylid gwahardd aelodau dirprwyol o'r pwyllgor cynllunio.


4.20 Ymysg y sylwadau a fynegwyd oedd y sylw bod rhaid ymgymryd â hyfforddiant cynhwysfawr os bydd y drefn o gael aelodau dirprwyol yn cael ei chadw, a hynny er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r cyngor yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i fod yn rhan o'r pwyllgor os gelwir arnynt.

**Ymateb**

4.21 Er mwyn darparu gwasanaeth cynllunio cyson, tecach, a mwy tryloyw, rhaid i aelodaeth y pwyllgor cynllunio fod yn sefydlog. Efallai na fydd aelodau dirprwyol wedi'u hyfforddi'n addas, ac nad oes ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen, i wneud penderfyniadau er budd ehangach y cyhoedd.

## 5 Rôl y Pwyllgor Cynllunio

| C5. | Ydych chi'n cytuno â rôl rheoli datblygu'r pwyllgor cynllunio fel y'i hamlinellir uchod? |
| --- | --- |




5.1 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (66% o'r rhai a atebodd) yn cytuno â rôl rheoli datblygu'r pwyllgor cynllunio fel y'i pennir yn y papur ymgynghori.

5.2 Cafwyd consensws ei bod yn fwy priodol i geisiadau llai neu rai digynnen gael eu hystyried o dan bwerau dirprwyedig swyddogion; fodd bynnag, mae angen mireinio geiriad y diffiniad, yn arbennig yng nghyswllt y termau 'mesuradwy', 'cymuned' a 'grŵp o bobl'.

5.3 Nododd y rhai a oedd yn anghytuno y byddai cyfyngu ar rôl y Pwyllgor Cynllunio o ymdrin â datblygiadau mawr yn dileu elfen fawr a phwysig o atebolrwydd cyhoeddus o'r system gynllunio, ac yn cael effaith niweidiol ar ddemocratiaeth leol drwy leihau rôl aelodau etholedig a dileu hawl y cyhoedd i siarad yn y pwyllgor cynllunio.


**Ymateb**

5.4 Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i barhau i fireinio'r diffiniad o rôl y pwyllgor cynllunio fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynllun dirprwyo cenedlaethol.

## 6 Cynllun Dirprwyo

6.1 Darperir isod grynodeb o’r sylwadau a ddaeth i law mewn ymateb i bob cwestiwn. Mae ymateb Llywodraeth Cymru ar y cyd i’w weld ym mharagraffau 5.38 – 5.43


| | |
|---|---|
| **C6.** | **Ydych chi'n cytuno bod angen cynnwys yr eithriad sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor cynllunio gymeradwyo ceisiadau sy'n groes i'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd ac yr argymhellir eu bod yn cael eu cymeradwyo? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam.** |




6.2 O’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn, roedd y mwyafrif (75% o’r rhai a atebodd) yn cytuno mai’r pwyllgor cynllunio a ddylai benderfynu ar gynigion datblygu sy’n groes i’r cynllun datblygu lleol ond y mae swyddogion yn argymell y dylid eu cymeradwyo.

6.3 Ystyriwyd bod angen darlun cliriach o’r hyn sy’n cyfateb i wyriad er mwyn atal gwrthdaro ar sail dehongliadau gwahanol o’r polisïau.

| C7. | Ydych chi'n cytuno bod angen cynnwys eithriad sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgor cynllunio benderfynu ar bob cais y mae angen EIA ar ei gyfer? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam. |
|---|---|





6.4 O’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn, roedd y mwyafrif (64% o’r rhai a atebodd) yn cytuno mai’r pwyllgor cynllunio a ddylai benderfynu ar bob cais sy’n destun asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd (AEA / EIA).

6.5 Nodwyd ymysg y sylwadau y byddai’r eithriad ynghylch datblygiadau mawr yn berthnasol i fwyafrif y ceisiadau sy’n destun asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd.

6.6 Ymysg y rhai a oedd yn anghytuno, cafwyd sylwadau a oedd yn egluro y gall asesiad o’r effaith ar yr amgylchedd ategu cais sy’n cyd-fynd â pholisi’r cynllun datblygu ac nad yw’n amlygu fawr ddim o faterion cynllunio. Mewn achosion o’r fath, ni fyddai llawer o werth mewn dod â chais o’r fath i sylw’r Pwyllgor.

| C8. | Ydych chi'n cytuno bod angen cynnwys eithriad sy'n ymwneud â cheisiadau a wneir gan aelodau a staff awdurdodau cynllunio lleol a'u gŵyr/gwragedd, partneriaid a pherthnasau agos? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam |
|---|---|





6.7 O’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn, roedd y mwyafrif (81% o’r rhai a atebodd) yn cytuno mai’r pwyllgor cynllunio a ddylai benderfynu ar bob cais a gyflwynir gan aelodau, staff, ac yn y blaen.

6.8 Cafwyd consensws fod angen eithriad o’r fath er mwyn cynnal tryloywder a thegwch y broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae angen ystyried cwmpas a geiriad yr eithriad ymhellach fel bod ceisiadau a wneir gan aelodau’r cyngor nad ydynt yn ymwneud â gwaith cynllunio (neu eu perthnasau), pan nad oes dim gwrthdaro posibl rhwng buddiannau, yn cael eu dirprwyo.

6.9 Cyfeiriodd pwynt ychwanegol a fynegodd nifer o ymatebwyr at yr angen i ystyried a ddylai’r pwyllgor cynllunio benderfynu hefyd ar geisiadau ynglŷn â thir y mae’r Awdurdod Lleol yn berchen arno ar hyn o bryd.

| C9. | Ydych chi'n cytuno y dylai'r trothwy datblygu gydymffurfio â'r diffiniad o 'ddatblygiad mawr' fel y'i rhagnodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012? Os nad ydych, eglurwch y rhesymau pam ac awgrymwch drothwy arall. |
|---|---|





6.14 Roedd cwmnïau sy'n adeiladu llawer iawn o dai o blaid gweld cynnydd yn y diffiniad o 'ddatblygiad mawr' yn y gorchymyn ynglŷn â'r weithdrefn. Argymhellwyd hefyd, pan fo caniatâd amlinellol wedi'i roi ar gyfer datblygiad mawr, y dylai'r materion dilynol a gadwyd yn ôl gael eu dirprwyo er mwyn atal y pwyllgor rhag trafod materion y cytunwyd arnynt eisoes fel rhan o gais amlinellol.

6.15 Roedd rhai Awdurdodau Lleol o blaid pennu mai'r arfer orau yw'r trothwyon. Awgrymodd eraill y dylid creu trothwyon sylfaenol, gan alluogi'r awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd â lefelau dirprwyo uchel i barhau i ddefnyddio'r lefelau dirprwyo hynny.

6.16 Darparodd awdurdodau cynllunio lleol nifer o ddewisiadau eraill hefyd.

| C10. | Ydych chi'n cytuno y dylai awdurdodau cynllunio lleol gael dewis rhwng dau drothwy datblygu |
|---|---|





6.17 O’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn, roedd y mwyafrif (55% o’r rhai a atebodd) o’r farn y dylai awdurdodau cynllunio lleol gael dewis rhwng dau drothwy datblygu.

6.18 Roedd llawer o’r sylwadau a ddarparwyd yn cyfeirio at y sylwadau a wnaed ynglŷn â’r cwestiwn blaenorol.

6.19 Cafwyd consensws cryf fod rhaid cynnwys hyblygrwydd yn y cynllun dirprwyo cenedlaethol er mwyn mynd i’r afael â gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol.

6.20 Roedd y Parciau Cenedlaethol o blaid creu terfynau trefol a gwledig o ran y trothwyon.

| C11. | Ydych chi'n cytuno y dylai'r cynllun dirprwyo cenedlaethol gynnwys eithriad sy'n seiliedig ar drothwy gwrthwynebiadau? |
|---|---|




6.21 O’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn, roedd y mwyafrif (54% o’r rhai a atebodd) o’r farn y dylid cynnwys trothwy gwrthwynebiadau yn y cynllun dirprwyo.

6.22 Nododd y rhai a oedd o blaid cynnwys trothwy gwrthwynebiadau fod darpariaeth o’r fath yn annog y cyhoedd i gymryd rhan yn y broses gynllunio.

6.23 Ymysg y pryderon a fynegwyd oedd ofnau y bydd yn cael ei gamddefnyddio gan wrthwynebwyr sy’n ceisio llofnodion er mwyn cyrraedd y trothwy, gan arwain o bosibl at fwy o geisiadau’n cael eu hystyried gan y pwyllgor cynllunio.

6.24 Nododd awdurdod cynllunio lleol fod y broses o aelodau’n galw ceisiadau i mewn yn peri bod modd i geisiadau dadleuol fynd i’r Pwyllgor yn ôl eu rhinweddau, ar sail ystyriaethau cynllunio ac nid nifer y gwrthwynebwyr yn unig.

| | |
|---|---|
| **C12.** | **Os ydych, ydy 20 llythyr oddi wrth bobl wahanol o gyfeiriadau gwahanol a/neu ddeiseb â 30 llofnod yn briodol er mwyn cadarnhau bod gan y gymuned ehangach fuddiant dilys yn y datblygiad?** |





6.25 O’r rhai a ymatebodd i’r cwestiwn, roedd y mwyafrif (52% o’r rhai a atebodd) yn anghytuno â phennu’r trothwy. Roedd llawer o’r ymatebion yn gysylltiedig â’r cwestiwn blaenorol.

6.26 Nododd y rhai a oedd o blaid cynnwys trothwy gwrthwynebiadau mai’r awdurdodau cynllunio lleol a ddylai bennu’r trothwy er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol.

6.27 Cafwyd peth cefnogaeth i’r syniad o bennu trothwy is o 5-10 o lythyrau a chynnwys unrhyw wrthwynebiadau gan ymgyngoreion statudol a chynghorau cymuned.

6.28 Awgrymodd nifer o awdurdodau cynllunio lleol gynigion eraill.

| C13. | Oes angen cyfyngu ar nifer y ceisiadau gan aelodau i alw cais cynllunio i mewn? Os nad oes, eglurwch y rhesymau pam. |
|---|---|





6.29 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (52% o'r rhai a atebodd) yn cytuno y dylid rheoli'r drefn o aelodau'n galw ceisiadau cynllunio i mewn. Fodd bynnag, nid oedd dim consensws o ran sut y dylid cyflawni hyn (gweler C14 a 15).

6.30 Ymysg safbwyntiau'r rhai a oedd yn anghytuno oedd y sylw y bydd yr aelod lleol yn gwybod am safbwyntiau'r gymuned ac y dylai felly allu galw cais i mewn ar y sail honno.

6.31 Awgrymodd awdurdodau cynllunio lleol nifer o gynigion.

| C14. | Ddylid cyflwyno paneli dirprwyo er mwyn dilysu ceisiadau gan aelodau i alw cais cynllunio i mewn? |
|---|---|





6.32 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, nid oedd dim pwysoliad mwyafrifol.

6.33 Cyfeiriodd y rhai a oedd o blaid at y posibilrwydd y gallai paneli o'r fath wella tryloywder yn lle bod Cadeirydd y pwyllgor cynllunio â'r holl awdurdod.

6.34 Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu o'r farn fod cyflwyno paneli dirprwyo yn rhwystr rhag cyflwyno penderfyniadau cyflym ac y byddent yn haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a chost i awdurdodau cynllunio lleol.

| C15. | Ddylai ceisiadau gan aelodau i alw cais cynllunio i mewn gael eu cysylltu ag eithriad arall? Os na ddylent, eglurwch y rhesymau pam ac awgrymwch ffordd bosibl arall o weithredu. |
|---|---|



6.35 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, nid oedd dim pwysoliad mwyafrifol.

6.36 Awgrymodd awdurdodau cynllunio lleol nifer o gynigion.

6.37 Nododd Cymdeithas y Gyfraith ei bod yn bosibl, os yw'r hawl i gyfeirio'n aros gyda'r aelodau lleol pan fo trothwy gwrthwynebiadau wedi'i gyrraedd, fod y ffaith bod yr aelod wedi gwrthod galw cais cynllunio i mewn yn benderfyniad a allai fod yn destun adolygiad barnwrol.

**Ymateb**

6.38 Mae'r gronfa dystiolaeth sy'n ategu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn dangos amrywiad eang o ran y dull a fabwysiadir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol wrth ymdrin ag arferion dirprwyo penderfyniadau cynllunio. Yn arbennig, canfu feysydd lle y gellid gwella'r trefniadau ar gyfer dirprwyo materion cynllunio i swyddogion awdurdodau cynllunio lleol.

6.39 Cafodd y gallu i gyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol ei ddarparu gan Adran 39 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, gan ddiwygio Adran 319 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wella cyflymder a chysondeb penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol.

6.40 Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol; fodd bynnag, awgrymodd nifer o ymatebion fod angen darparu hyblygrwydd lleol.


6.41 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i'r broses o ffurfioli cynllun dirprwyo cenedlaethol gael ei hystyried yn ofalus. Rhaid i'r cynllun dirprwyo adlewyrchu rôl strategol y pwyllgor cynllunio o ran gwneud penderfyniadau ar reoli datblygiadau, gan barhau i ymateb i amgylchiadau lleol.

6.42 Bydd cyflwyno cynllun dirprwyo cenedlaethol yn cael ei ystyried ymhellach.

# 7 Cyd-fyrddau Cynllunio

7.1 Darperir isod grynodeb o'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i bob cwestiwn. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'w weld ym mharagraff 6.10.

| | |
|---|---|
| **C16.** | **Ydych chi'n cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gael yr awdurdod i benderfynu ar nifer yr aelodau ar gyd-fyrddau cynllunio, ar yr amod bod y nifer hwnnw'n cyd-fynd â nifer yr aelodau ar bwyllgorau cynllunio?** |





7.2 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, roedd y mwyafrif (53% o'r rhai a atebodd) yn cytuno y dylai Gweinidogion Cymru gael yr awdurdod i benderfynu ar nifer yr aelodau ar gyd-fyrddau cynllunio.

7.3 Cyflwynodd nifer o'r ymatebwyr hynny sy'n cefnogi'r cynigion sylwadau ategol, gan gynnwys y datganiad y dylai awdurdodau cynllunio lleol gael eu cynnwys i ryw raddau neu y dylid ymgynghori â nhw ynghylch nifer yr aelodau ar y Bwrdd.

7.4 Nododd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynigion amryw o resymau, er bod y mwyafrif yn canolbwyntio ar y farn fod y cynigion yn rhy gynnar o ystyried cynlluniau ehangach y Llywodraeth ar gyfer ad-drefnu awdurdodau lleol, a bod nifer yr aelodau ar y Bwrdd yn fater y dylid penderfynu arno'n lleol.

7.5 Cafwyd sylwadau eraill ar y darpariaethau sy'n ymwneud â'r Cyd-fwrdd Cynllunio yn gyffredinol; roedd y mwyafrif o'r farn na ddylai Cyd-fyrddau Cynllunio ond feddu ar bwerau i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio ac na ddylent fod yn gyfrifol am lunio Cynlluniau Datblygu Lleol.

| C17. | **Ydych chi'n cytuno â'r fformiwla arfaethedig, sy'n seiliedig ar boblogaeth, ar gyfer penderfynu ar nifer yr aelodau o'r awdurdodau cynllunio cyfansoddol a fydd ar y cyd-fwrdd cynllunio?** |
|---|---|




7.6 O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn, nid oedd dim pwysoliad mwyafrifol.

7.7 Roedd gwahaniaeth rhwng y safbwyntiau. O'r rhai a atebodd y cwestiwn yn uniongyrchol, roedd mwyafrif bach (51.6%, neu 32 o ymatebwyr) yn cytuno â'r fformiwla arfaethedig, sy'n seiliedig ar boblogaeth, ar gyfer penderfynu ar nifer yr aelodau o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfansoddol a fydd ar y cyd-fwrdd cynllunio.

7.8 Yn gyffredinol, roedd y sylwadau ychwanegol a gafwyd a oedd naill ai o blaid y cynigion neu'n eu gwrthwynebu o'r farn y dylid addasu'r fformiwla er mwyn ystyried ardaloedd gwledig mwy sydd â phoblogaethau llai. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu o'r farn y byddai'r fformiwla fel y mae yn peri bod gan ardaloedd o'r fath lai o gynrychiolaeth ac yn cael eu cynrychioli mewn modd annheg, o bosibl.

7.9 O blith sylwadau pellach yr ymatebwyr hynny a oedd yn gwrthwynebu'r cynigion, roedd y mwyafrif yn nodi y dylai cymesuredd yr aelodau at ddibenion creu aelodaeth y Bwrdd fod yn fater i'w drafod ac i gytuno arno'n lleol.

**Ymateb**

7.10 Mae darpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 mewn grym erbyn hyn sy'n ehangu ac yn cynyddu'r pwerau a geir yn Neddf 1990. Mae'r newidiadau'n cyflwyno hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ynghylch y mathau o gyrff sy'n gallu cyflawni rôl awdurdod cynllunio lleol yng nghyswllt swyddogaethau cynllunio statudol, er mwyn darparu gwasanaethau cynllunio effeithlon, effeithiol a gwydn ledled Cymru.

## 8 Asesiad Effaith Rheoleiddiol

| C18. | Oes gennych unrhyw sylwadau am yr Asesiad rhannol o Effaith Reoleiddiol yn Anecs 1? Ydy'r rhagdybiaethau a wneir ynddo yn rhai realistig? Os nad ydynt, pa ffigurau fyddai'n fwy priodol |
|---|---|

8.1 Darperir isod grynodeb o'r prif faterion a sylwadau a fynegwyd ynghylch yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh) drafft:

- Mae'r ddogfen yn ystyried cost ceisiadau cynllunio gohiriedig o safbwynt economaidd a safbwynt datblygwyr yn unig ac nid yw'n ystyried y gost i'r seilwaith cyhoeddus a'r amgylchedd, a'r gost gymdeithasol o beidio â chael cynigion datblygu gwbl dryloyw, y craffwyd arnynt, ac sydd o ansawdd uwch yn y pen draw.
- Ni ddangoswyd bod arbedion ariannol yn ffactor a fu'n hollbwysig yn y cynigion.
- Symudodd Gwynedd o gael 3 phwyllgor ardal i un pwyllgor 3 blynedd yn ôl, a leihaodd gostau'n sylweddol.
- Nid yw'n glir ar bai sail y cyfrifwyd y costau y cyfeirir atynt. Nid yw gwerth cynnwys aelodau'n uniongyrchol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu ward wedi'i asesu'n llwyr.
- Mae'r gost sy'n gysylltiedig â chynigion penodol wedi'i hamcangyfrif yn rhy isel
- Mae'r costau dangosol yn atgyfnerthu'r ffaith bod ffioedd ceisiadau cynllunio yn hynod annigonol o ran talu costau awdurdod cynllunio lleol.
- Dylai fod dadansoddiad o'r effaith ar gymunedau lleol a dylid cynnwys hwn yn is-bennawd ychwanegol yn yr Asesiad Effaith.
- Ar hyn o bryd, mae'r rhagdybiaethau wedi'u seilio ar nifer fach iawn o awdurdodau cynllunio lleol ac mae'n ymddangos eu bod yn adlewyrchu costau ochr y gwaith achos yn unig ac nad ydynt yn cynnwys cyfraniad polisi.
- Byddai'r costau'n fwy mewn cymunedau gwledig oherwydd y pellteroedd a deithir i ymweld â safleoedd.

**Ymateb**

8.2 Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft rhannol oedd yr AERh a gyflwynwyd gyda'r ymgynghoriad. Bydd yr AERh a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau terfynol yn cynnwys asesiad o bob un o'r cynigion a weithredir.

8.3 Roedd yr asesiad o'r oedi yn y system gynllunio wedi'i seilio ar y dystiolaeth a oedd ar gael ar yr adeg y lluniwyd y ddogfen.

8.4 Mae AERh yn gwneud asesiad cyffredinol o effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig. Nid oes modd asesu effaith y cynigion ar bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

8.5 Er y nodwyd bod cyflawni arbedion ariannol yn ganlyniad tebygol i'r newidiadau arfaethedig, nid dyna oedd y nod wrth fwrw ymlaen â newidiadau deddfwriaethol.

8.6 Mae ffioedd ceisiadau cynllunio wedi cynyddu ers cyhoeddi'r

| ymgynghoriad. |
|---|

## 9 Crynodeb o'r sylwadau eraill

| C.19 | **Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, mae croeso i chi eu nodi isod** |
|---|---|

Hyfforddi Aelodau

9.1 Cefnogir yr egwyddor o gael cyfres genedlaethol o ddeunyddiau, ond byddwn yn argymell y dylai fod digon o hyblygrwydd i'r deunyddiau hynny gael eu haddasu yn ôl cymeriad ardal benodol yr awdurdod cynllunio lleol.

9.2 Mae'n hynod bwysig fod swyddogion a Chynghorwyr yn cael cymorth yn y ffordd fwyaf cynhwysfawr drwy gyfrwng hyfforddiant diweddaru rheolaidd. Dylai hyfforddiant o'r fath gael ei ddatblygu a'i fireinio drwy ymgynghori â sefydliadau proffesiynol, a thrwy gydweithredu â nhw, pan fo'n bosibl.

9.3 Mae hyfforddiant yn bwysig er mwyn diweddaru nid yn unig wybodaeth dechnegol ond ddulliau o feddwl hefyd drwy ysgogi trafodaethau mewnol. Wrth i amgylchiadau economaidd newid, mae'n bwysig bod cynllunwyr yn mynd ati'n barhaus i ystyried cymesuredd galwadau a gofynion cynllunio yn ôl cyflwr yr economi ehangach.

9.4 Mae pryderon am y ffaith bod astudiaeth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) wedi argymell hyfforddiant gorfodol i aelodau etholedig ac nad yw hynny wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon, ond mae'n hanfodol ac mae angen dirfawr amdano.

9.5 Dylai fod cymorth ar gyfer hyfforddiant cychwynnol a pharhaus i aelodau'r pwyllgor cynllunio. Dylai'r hyfforddiant hwn gynnwys deddfwriaeth bywyd gwyllt a bioamrywiaeth, gan gyfeirio at flaenoriaethau'r cynllun gweithredu lleol ar fioamrywiaeth.

**Ymateb**

Y protocol cenedlaethol ynglŷn â phwyllgorau cynllunio yw'r dull cyflawni priodol ar gyfer pennu'r math o hyfforddiant i'r aelodau a faint o hyfforddiant sydd i'w wneud, gan gynnwys unrhyw ofynion gorfodol neu barhaus.

Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn llunio deunyddiau hyfforddi ar y prif bynciau ac yn eu dosbarthu i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017. Bydd darparu un gyfres o ddeunyddiau yn cyfrannu at y nod o gyflawni gwasanaeth cynllunio cyson yng Nghymru.

9.6 Mae angen gwneud newidiadau pellach i'r broses bwyllgorau/apeliadau: gweithredu cyfnod 'ailfeddwl' (na fydd yn dod i ben yn ddiweddarach na'r Pwyllgor nesaf sydd ar gael) sy'n caniatáu i aelodau'r pwyllgor ailystyried mynd yn groes i argymhelliad swyddog; ac, os bydd y pwyllgor yn bwrw ymlaen â gwrthdroi penderfyniad, gan olygu y ceir apêl, dylai aelodau'r pwyllgor fod yn gyfrifol am baratoi achos y cyngor yn yr apêl. Dylai'r newidiadau hyn beri i aelodau feddwl ddwywaith cyn gwneud penderfyniadau di-sail ac arwain at lai o oedi yn ystod y broses gynllunio.

9.7 Mae'n hollbwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael cyfle i wneud cyfraniad o sylwedd i'r ddogfen hon ac nad yw Llywodraeth Cymru neu'r Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio (PAIS) yn ei gorfodi.

9.8 Nodwyd nad oes dim cwestiynau yn yr ymgynghoriad ynglŷn â'r Protocol Cenedlaethol arfaethedig. Er bod y bwriad i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu protocol i'w groesawu, y gobaith yw y cynhelir ymgynghoriad â rhanddeiliaid ynghylch protocol drafft ac y gofynnir hefyd am gyfraniad y Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio.

9.9 Y weithdrefn ar gyfer gwrthdroi argymhelliad swyddog: dyma un o'r materion anoddaf i'w ddatrys. Os bwriedir i bwyllgor cynllunio a benodwyd neu a etholwyd yn ddemocrataidd fod wrth galon y system gynllunio (fel yr argymhellodd y Grŵp Cynghori Annibynnol), rhaid i'r pwyllgor fod â hawl i wrthod argymhelliad swyddog, ar yr amod y gwneir hyn am resymau cyfreithlon. Gall hyn hefyd fod yn ddull o ddiogelu rhag llygredigaeth, mewn achosion eithafol.

9.10 Mae'n amlwg bod disgwyl i swyddogion cynllunio amddiffyn penderfyniadau nad ydynt wedi'u hargymell yn groes i ethos y proffesiwn cynllunio. Fodd bynnag, mae pob un o'r dewisiadau eraill a fabwysiadir yn yr amgylchiadau hyn yn anfoddhaol, i ryw raddau.

9.11 Gall fod yn ddrud iawn dod ag ymgynghorwyr allanol i mewn i amddiffyn y penderfyniad i wrthod.

9.12 Os yw'n ofynnol i'r aelodau amddiffyn y penderfyniad i wrthod yn bersonol, gall hyn atal y broses ddemocrataidd, yn arbennig mewn achosion pan geir cydbwysedd agos. Hefyd, byddai'r aelodau'n gwneud hynny yn enw'r awdurdod cynllunio lleol a gallai'r ffaith eu bod yn cynnal apêl eu hunain olygu bod costau'n cael eu dyfarnu, y byddai angen wedyn i'r awdurdod cynllunio lleol eu talu.

9.13 Un dewis fyddai cael panel o gynllunwyr (efallai swyddogion sydd wedi ymddeol yn ddiweddar neu swyddogion llawrydd) y gellid galw arnynt i ddod i mewn i gynorthwyo'r aelodau mewn achosion o wrthod yn erbyn argymhelliad swyddog – sef math o "Gymorth Cynllunio i aelodau".

9.14 Dylid ystyried rôl cyngor cyfreithiol hefyd. Fel arfer, ni fydd cynghorydd cyfreithiol pwyllgor yn gyfrifol am yr argymhelliad yn yr adroddiad. O ganlyniad, ni fydd yn destun yr un cyfyngiadau â'r swyddogion cynllunio proffesiynol wrth gynorthwyo aelodau gyda llunio'u rhesymau dros wrthod. Mae'n bosibl iawn y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y rhesymau mor gynaliadwy ag y bo modd er mwyn atal dyfarniadau costau anffafriol maes o law.

9.15 Profiad aelodau'r Pwyllgor Cyfraith Cynllunio a'r Amgylchedd yw mai yn anaml iawn y bydd cyfnod "ailfeddwl" yn cael unrhyw effaith ar y canlyniad pan gafwyd trafodaeth agored a chyhoeddus y mae aelodau wedi ymrwymo eu hunain ynddi. Dyma faes lle y mae'n hollbwysig cael dull gweithredu cenedlaethol cyson, a dylai'r Protocol bennu'r hyn sydd i ddigwydd yn y sefyllfaoedd hyn fel bod y cyhoedd a'r aelodau'n gwybod beth yn union fydd yn digwydd os bydd argymhelliad yn cael ei wrthdroi.

9.16 Byddai o fantais cael dull cyson o ymdrin â'r trefniadau ar gyfer siarad yn gyhoeddus.

9.17 Gwahaniaethu rhwng y sawl sy'n gwneud y penderfyniad a'r cynrychiolydd lleol: byddai Cymdeithas y Gyfraith yn ailddatgan ei sylw am yr angen i rolau pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod gael eu hegluro o'r cychwyn. Mae Cymdeithas y Gyfraith yn cytuno na ddylai aelodau lleol sy'n gweithredu'n eiriolwyr cymunedol yn ystod cyfarfod eistedd gyda'r aelodau sy'n gwneud penderfyniadau.

9.18 Mewn pwyllgorau sydd wedi'u hyfforddi'n dda, mae lle i arloesi mewn ffyrdd a allai leihau gwrthdaro yn y system a chynyddu tryloywder a'r cyfle i gymryd rhan yn ddemocrataidd. Mae cynnwys aelodau mewn ymgynghoriadau cyn ymgeisio, a chynnal gwrandawiadau i ymchwilio i geisiadau mawr cyn dadl i benderfynu arnynt, ill dau yn ddewisiadau y gellid eu treialu. Dulliau arloesi yw'r rhain y gallai'r Gwasanaeth Gwella a Chynghori ar Gynllunio eu harwain, o bosibl.

9.19 Cod Ymddygiad yr Aelodau: nid yw'r ffiniau rhwng Protocol Pwyllgorau Cynllunio a Chod Ymddygiad ym maes Cynllunio i'r Aelodau bob amser yn gwbl glir. Dylai Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ystyried a fyddai'n well cael un ddogfen ac a fyddai'n haws i'r cyhoedd pe bai un ffynhonnell ganllawiau ynglŷn â sut y mae pwyllgor cynllunio'n gweithredu.

**Ymateb**

Gwahoddodd Llywodraeth Cymru awdurdodau lleol i lunio protocol pwyllgorau cynllunio gwirfoddol. Drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sefydlwyd grŵp drafftio gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Chyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (LLG).

Cyhoeddwyd protocol drafft i fod yn destun ymgynghoriad ar 01 Mawrth 2016.

Cynllun Dirprwyo

9.20 Ni ddylai unrhyw gynllun dirprwyo cenedlaethol gael ei bennu mewn ffordd sy'n gwaethygu cynllun presennol awdurdod cynllunio lleol.

9.21 Atgyfeiriad y Prif Swyddog/Pennaeth Cynllunio – mae angen trafod cadw'r swyddogaeth hon ac mae'n siomedig nad oedd hynny'n destun cwestiwn ffurfiol yn y ddogfen ymgynghori. Derbynnir mai yn anaml iawn y defnyddir y math hwn o atgyfeiriad; fodd bynnag, ystyrir bod cael peth disgresiwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y broses rheoli datblygu yn mynd rhagddi'n ddidrafferth, drwy greu cyfle i fynd i'r afael ag amgylchiadau nas rhagwelwyd, os bydd angen.

9.22 Wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio cais at bwyllgor, dylid hefyd ystyried yr effeithiau posibl ar y Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru.

9.23 Pan geisir mân-wyriadau perthnasol o benderfyniad y pwyllgor i gymeradwyo, dylai fod llwybr i swyddogion benderfynu ar y rhain drwy ymgynghori â'r Cadeirydd neu'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ynghyd â disgresiwn iddynt eu hatgyfeirio at y Pwyllgor.

9.24 Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y cynnig na fydd cyflawni amodau wedi'i gwmpasu gan y cynllun dirprwyo. Mae aelodau Pwyllgor Cyfraith Cynllunio a'r Amgylchedd Cymdeithas y Gyfraith â phrofiad o benderfyniadau pan fo lleiafrif o aelodau pwyllgor cynllunio, sy'n colli o ran yr egwyddor o gydsynio, yn sicrhau penderfyniad sy'n ei gwneud yn ofynnol i benderfyniadau ar gyflawni amodau gael eu hatgyfeirio yn ôl i'r pwyllgor yn aml iawn. Mae hyn yn arwain at oedi canlyniadol i'r broses o weithredu'r caniatâd. Dylid hefyd ei gwneud yn glir fod y gwaith o lunio amodau a'u diwygio yn fater i gyfreithwyr a swyddogion awdurdodau cynllunio lleol, yn hytrach na'r aelodau.

9.25 Mae dadl o blaid atgyfeirio ceisiadau at y pwyllgor cynllunio pan fo barn y cyngor cymuned neu dref yn wahanol i argymhelliad swyddogion yr awdurdod cynllunio lleol. Byddai sicrhau bod y dewis hwn ar gael, yn arbennig yn yr awdurdodau mwy gwledig, yn gwrthbwyso i raddau helaeth y feirniadaeth y byddai'r cynllun cenedlaethol arfaethedig yn arwain at nifer fach iawn o geisiadau'n cael eu cyflwyno gerbron rhai pwyllgorau cynllunio.

**Ymateb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen i'r broses o ffurfioli cynllun dirprwyo cenedlaethol gael ei hystyried yn ofalus.

## Atodiad A – Rhestr lawn o'r ymatebwyr, fesul categori

| **Busnesau/Ymgynghorwyr** | **Asiantaeth Lywodraethol/Corff arall yn y Sector Cyhoeddus** |
|---|---|
| RWE Generation UK Ltd<br>Stride Treglown<br>Sainsbury's Supermarkets Ltd (WYG)<br>Persimmon Homes West Wales<br>Wynne Jones, Ymgynghorydd Cynllunio<br>Redrow Homes Ltd<br>Persimmon Homes East Wales | Cyngor Cymuned Dinas Powys<br>Cyngor Cymuned Llandochau<br>Cyngor Tref Llanilltud Fawr<br>Cyngor Tref y Trallwng<br>Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cymorth Cynllunio Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Un Llais Cymru<br>Yr Awdurdod Glo |
| **Awdurdodau Cynllunio Lleol** | **Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Buddiant** |
| Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>Cyngor Dinas a Sir Abertawe<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Parciau Cenedlaethol Cymru<br>Cyngor Sir Fynwy<br>Cyngor Sir Gaerfyrddin<br>Cyngor Dinas Casnewydd<br>Cyngor Sir Penfro<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyngor Sir Powys<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)<br>Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi<br>Cymdeithas y Gyfraith<br>Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol<br>Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru<br>Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru<br>Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru (SEWSPG)<br>Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru<br>Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr (CIfA)<br>Cymdeithas Gweithredwyr Ffonau Symudol<br>Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad (CLA) Cymru<br>Cydffederasiwn Cynhyrchwyr Glo y DU (CoalPro) |
| **Y Sector Gwirfoddol** | **Eraill** |
| Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru<br>Cymdeithas Ddinesig Dinbych-y-Pysgod<br>Cyswllt Amgylchedd Cymru<br>Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig<br>Ymddiriedolaethau Natur Cymru<br>Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Cymdeithas Ddinesig y Drenewydd a'r Cylch | John Bowers<br>Andrew Ferguson<br>Mike Bird |

Nododd 6 ymatebydd nad oeddent am i'w henwau gael eu cyhoeddi.